

**Cynllun Datblygu Lleol Conwy i'w  
Archwilio Gan y Cyhoedd  
2007 – 2022  
(Argraffiad Diwygiedig 2011)**



**PAPUR CEFNDIR 22 DIWYGIEDIG  
- CYFLWYNO**

**Asesiad Galw am Safleoedd Sipsiwn a  
Theithwyr**

**Awst 2012**

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: [www.conwy.gov.uk/cdll](http://www.conwy.gov.uk/cdll). Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Castle Street, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fyddech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575181 / 575124 / 575445 / 575447.

**Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

# Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
<b>1. Adran 1</b> .....	4
Cefndir .....	4
Papur Cefndir 23.....	5
<b>2. Adran 2</b> .....	7
Asesiad.....	7
Dadansoddi'r Data .....	7
Diffygion Data .....	9
<b>3. Adran 3</b> .....	12
Cyfiawnhad dros gael gwared â'R ardal chwilio am safleoedd a gynigiwyd yn y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd (2009) a chymau gweithredu bwriedig.....	12
<b>4. Atodiad 1 Data Gwersylloedd Anghyfreithlon 2007-2010</b> .....	14
<b>5. Atodiad 2 Crynodeb o Bapur Cefndir 23 y CDLI Cyntaf i'w Archwilio gan y Cyhoedd</b> .....	17

## 1. Adran 1

### Cefndir

- 1.1 Mae'r papur hwn yn un o gyfres o bapurau cefndir sy'n dod gyda'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) - Cyflwyno. Pan fydd y Cyngor yn cyflwyno ei CDLI, rhaid iddo hefyd egluro sut y lluniwyd y polisi, yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd. Mae'r papur cefndir hwn yn trafod y canlynol:

**1. Y galw am safleoedd/lleiniau sipsiwn a theithwyr yn Ardal y Cynllun ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sef yr ardal sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri.**

O ystyried y gwrthwynebiadau a godwyd gan Lywodraeth Cymru o dan brofion cadernid C2, CE1 a CE2 yn cyfnod diwygiedig i'w archwilio gan y cyhoedd, mae pa mor addas yw'r data a oedd ar gael i bennu'r math o safle sydd ei angen, a maint y safle hwnnw er mwyn dyrannu safle yn y CDLI.

**2. Lleoliad y safle a'r rhesymau a'r cyfiawnhad dros gael gwared â'r Ardal Chwilio am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr fel y cynigir yn CDLI 2009 i'w Archwilio gan y Cyhoedd.**

- 1.2 Cyflwynir y PC ar ffurf tair adran.

Adran 1: Y Cefndir (yr adran hon)

Adran 2: Asesu lefel y dystiolaeth a oedd ar gael yn y cyfnod diwygiedig i'w archwilio gan y cyhoedd er mwyn pennu'r math o safle y mae angen ei gynnwys yn Ardal y Cynllun, a maint y safle hwnnw (Pwyntiau 1 a 2)

Adran 3: Asesu'r lleoliad priodol ar gyfer safle, ar ôl asesu'r sylfaen dystiolaeth a'r cyfiawnhad dros gael gwared â'r Ardal Chwilio am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr fel y cynigir yn CDLI 2009 i'w Archwilio gan y Cyhoedd (Pwynt 3)

- 1.3 Mae deddfwriaeth a chanllawiau gan y Llywodraeth wedi nodi ei hymrwymiad i ddatrys rhai o'r problemau llety sydd wedi bodoli ers tro ar gyfer cymunedau sipsiwn

a theithwyr. Nod cyffredinol y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod aelodau o gymunedau sipsiwn a theithwyr yn cael mynediad cyfartal at yr un dewisiadau llety cywir a phriodol â phob aelod arall o gymdeithas. O ganlyniad, mae nifer o Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr bellach yn cael eu cynnal ar draws Prydain, wrth i awdurdodau lleol ymateb i'r ymrwymïadau a'r gofynion newydd hyn.

- 1.4 Wrth baratoi CDLI Conwy, mae'r Cyngor wedi cynnal Asesiad Marchnad Dai Leol Gogledd Orllewin Cymru (LHMA) mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos a Phrifysgol Bangor. Mae Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) yn cynnwys Cam 2 yr LHMA i ddarparu gwybodaeth i'r Cynghorau am yr angen am Llety Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal. Er nad yw'r GTAA eto wedi ei gyhoeddi, mae drafft wedi ei gwblhau yn ddiweddar ac mae'r canlyniadau wedi cael eu hystyried yn y 'newidiadau â ffocws' i'r Cynllun fel y cyfeirir ato yn Adran 3.

### **Papur Cefndir 23**

- 1.5 Cynhaliodd y Cyngor arolwg blaenorol o wersylloedd Sipsiwn a Theithwyr anghyfreithlon yn y Fwrdeistref Sirol fel rhan o'r CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd (mis Ebrill 2009) gyda'r nod o asesu'r angen a nodwyd ar y pryd. Wedi hynny cynhaliwyd mwy o waith gwerthuso chwiliad safle i geisio diwallu'r angen a nodwyd ac amlygwyd Ardal Chwilio Safle Sipsiwn a Theithwyr. Mae manylion y gwaith hwn yn y BP/23 'Astudiaeth Chwilio a Gwerthuso am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr' blaenorol, ac mae crynodeb ohono wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 y Papur Cefndir hwn. Fodd bynnag, fel y dangosir yn y dystiolaeth bellach yn y PC cyflwyno diwygiedig hwn, roedd addasrwydd y data ar dueddiadau gwerysloedd anghyfreithlon a'r cyngor a gafwyd drwy gyfarwyddyd cenedlaethol yn gyfrifol am gael gwared â'r Ardal Chwilio. Yn y CDLI diwygiedig i'w archwilio gan y cyhoedd cafodd yr ardal chwilio ei hamnewid am faen prawf yn seiliedig ar bolisi sy'n cyfeirio at weithredu yn dilyn canlyniad y GTAA.
- 1.6 Cafodd y CDLI diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2011 er mwyn cynnal ymgynghoriad arno am gyfnod o 6 wythnos. Cododd Llywodraeth Cymru wrthwynebiad ynghylch profion cadernid C2, CE1, ac CE2 fel a ganlyn:

**Materion lle'r ymddengys nad yw'r cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd wedi trosi polisi cenedlaethol i'r raddfa leol i raddau boddhaol, a lle gallai tensiwn fodoli o fewn y cynllun, sef:**

*"i. Darparu safle i Sipsiwn a Theithwyr - Nid oes unrhyw safle penodol wedi'i ddarparu er mwyn ymateb i'r dystiolaeth, sy'n nodi bod angen safle(oedd). Mae amcanion y cynllun yn cynnwys darparu ar gyfer anghenion Sipsiwn a Theithwyr am safleoedd. Er bod polisi HOU/4 yn darparu ymagwedd seiliedig ar feini prawf er mwyn bodloni unrhyw angen na nodwyd sy'n codi dros gyfnod y cynllun, yn unol â Chylchlythyr 30/2007 mae'r dystiolaeth yn dangos ei bod hi'n amlwg bod angen eisoes yn bodoli, ac felly dylid nodi nifer priodol o safle(oedd)/lleiniau yn y cynllun. Nid oes unrhyw dir wedi'i ddyrannu i fodloni'r angen presennol. Dylid cyflawni'r gwaith technegol angenrheidiol er mwyn pennu sut y caiff yr angen presennol ei fodloni, ynghyd ag unrhyw ddyraniad priodol a wneir drwy Newid Manwl".*

- 1.7 Mae Adrannau 2 a 3 y PC hwn yn canolbwyntio'n benodol ar y gwrthwynebiad a godwyd o ran addasrwydd y data i asesu'r anghenion am safle yng Nghonwy.

## 2. Adran 2

### Asesiad

- 2.1 Cynhaliwyd arolwg o wersylloedd Sipsiwn a Theithwyr yn y Fwrdeistref Sirol i ystyried y cyfnod 2007-2010, fel y dangosir yn Atodiad 1. Er mai hwn oedd yr unig dystiolaeth a oedd ar gael i'r Cyngor ar y pryd, gwerthfawrogwyd nad oedd efallai'n rhoi cynrychiolaeth fanwl gywir o'r boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr sy'n ymweld â Chonwy a siroedd cyfagos. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod hi'n ddigon posib y gallai aelodau eraill o'r boblogaeth fod yn ymweld â'r Fwrdeistref Sirol ond nad ydynt yn dod i sylw'r Cyngor o dan y data ar wersylloedd anghyfreithlon. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r data a oedd ar gael, fod cyfyngiadau sylweddol yn bodoli, fel y cyflwynir yn Atodiad 1 ac y dangosir yn y PC hwn, a oedd yn peri i rywun gwestiynu pa mor fuddiol oedd ei ddefnyddio wrth benderfynu ar faint y safle oedd ei angen, y math o safle, a'r lleoliad gorau ar ei gyfer.
- 2.2 Er bod y data yn ddefnyddiol, derbyniwyd yn llwyr fod angen gwaith pellach i sefydlu gwir boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr sy'n ymweld ac yn byw yn y Fwrdeistref Sirol trwy'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA). Er nad yw'r GTAA wedi'i gyhoeddi eto, fel y cyfeiriwyd yn flaenorol, mae canfyddiadau'r drafft wedi cael eu rhyddhau'n ddiweddar i hysbysu'r sefyllfa.

### Dadansoddi'r Data

- 2.3 Drwy ddadansoddi'r data a oedd ar gael dangoswyd:

**Amllder:** Roedd y rhan fwyaf o'r gwersylla anghyfreithlon yn digwydd yn ardal Bae Cinmel (tua 70%) ac roedd gan Sipsiwn a Theithwyr ar y cyfan ffafriaeth ar gyfer yr aradl hon ar gyfer gwersylla anghyfreithlon.

**Nifer y carafanau a gofnodwyd mewn gwersylloedd anghyfreithlon:** 2 Garafán (38%), 3 Carafán (23%), 4 Carafán (15%), 5 Carafán (8%), 7, 10, 17 a 20 Carafán (4% yr un). Mae'r mwyafrif a gofnodwyd yn grwpiau o 2,3 a 4 Carafán)

**Nifer cymedrig o Garafanau:** 26 / 132 Carafán = 5.07 Carafán

Gyda golwg ar y nifer o garafanau ar Wersylloedd Anghyfreithlon, y dosbarth mwyaf cyffredin o bell ffordd oedd y 'dosbarth 1 i 4'. Fodd bynnag, roedd angen edrych eto ar y ddau achlysur pan gafwyd '17 i 20'. Pe defnyddiwyd y dosbarth "17 i 20 carafán" i bob Gwersyll Anghyfreithlon fel terfyn uchaf ar gyfer capasiti safle, byddai hyn â goblygiadau ar gyfer dyluniad a darpariaeth safleoedd yn y dyfodol ac, ynghlwm â hyn, y gost. Teimlwyd bod hyn angen dadansoddiad pellach fel rhan o'r GTAA.

**Gwersylloedd yn ôl y mis:** Bydd y gwersylloedd anghyfreithlon yn digwydd drwy gydol y flwyddyn, ond yn bennaf maent wedi'u cyfyngu i fisoedd yr haf a'r hydref.

Cododd y dadansoddiad uchod gwestiynau pwysig pellach a oedd angen eu dadansoddi drwy'r GTAA:

1. Pam oedd nifer y Gwersylloedd Anghyfreithlon yn cyrraedd uchafbwynt ym misoedd yr haf? Pe bai poblogaeth y Sipsiwn a'r Teithwyr yng Nghonwy yn gyson disgwylid mai cyson hefyd fyddai lefel y Gwersylloedd Anghyfreithlon drwy gydol y flwyddyn.

2. I ble mae'r cynullïadau Sipsiwn a Theithwyr sy'n ymweld â Chonwy yn mynd i dreulio'r gaeaf? Unwaith eto gallai'r GTAA edrych ar batrymau teithio i geisio ateb hyn.

**Cyfansymiau blynyddol y Gwersylloedd Anghyfreithlon:** 8 yn 2008, 6 yn 2009, 1 yn 2010 a dim un yn 2011. Dangosodd hyn bod y nifer o Wersylloedd Anghyfreithlon yn gostwng bob blwyddyn dros gyfnod o amser.

Roedd angen ymchwilio i'r duedd hon ymhellach drwy'r GTAA gan gynnwys ymgynghori trylwyr â'r gymuned deithiol i ddeall y patrymau.

**Hyd yr arhosiad, fesul diwrnod, wedi'u trefnu'n esgynnol am yr 13 o gofnodion a gadwyd:** Cofnodwyd cyfres o ddyddiau. O'r rhai y manylir arnynt yn yr atodiad, roedd tua 50% ond wedi'u cofnodi fel a ganlyn:

**Arosiadau a gofnodwyd, fesul diwrnod :** 1 3 3 4 7 7 12 15 19 24 36 55 75



Unwaith eto, cododd y dadansoddiad uchod rai cwestiynau pwysig a oedd raid eu dadansoddi ymhellach drwy'r GTAA:

1. Y pwynt cyntaf oedd bod y set o ddata'n anghyflawn gan nad oedd yn bosibl dadansoddi 50% o'r gwersylloedd ar sail hyd yr arhosiad mewn lle penodedig

## **Diffygion Data**

- 2.4 Cymhwysai'r papur cefndir blaenorol y data oedd ar gael ynglŷn â gwersylla'n anghyfreithlon i'r CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd (2009) i benderfynu ar fath a maint y safle a'r lleoliad. Fod bynnag, derbyniodd y Cyngor wedyn, yn dilyn dadansoddiad pellach, fod yna ddiffygion wrth gynnig dyraniad ar sail hyn. Amlygwyd nifer o gwestiynau pwysig uchod ar y pwynt hwn o dan y dadansoddiad o'r data. I ddechrau, roedd amrywiadau rhwng ystod yr ystadegau a gynhyrchwyd rhwng y naill flwyddyn a'r llall. Yn ail, nid oedd y set o ddata a gyflwynwyd yn y data a gofnodwyd ynglŷn â'r gwersylloedd anghyfreithlon yn gyflawn. Yn drydydd, nid oedd yn bosibl sicrhau a oedd y cynullïadau o Sipsiwn neu Deithwyr a oedd yn cyfrannu at y data yn rhai gwahanol i gyd neu a oedd rhai yn cael eu hailgyfrif dro ar ôl tro mewn Gwersylloedd Anghyfreithlon (hynny yw, yr un cynullïadau oedd yn cychwyn gwersyll ac yn cael eu cyfrif fwy nag unwaith mewn Gwersylloedd Anghyfreithlon yn ystod y cyfnod 2007 i 2011).
- 2.5 Er gwaethaf y casgliadau nad oedd y data'n ddigonol i gynnig safle o fath, neu o faint neilltuol, roedd hefyd nifer o gwestiynau pwysig a oedd rhaid eu trafod drwy ymgynghori â'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr er mwyn deall hyn yn llawn a phenderfynu ar y safle o ran math a maint, er enghraifft.
  1. Patrymau teithio: cylchdroadau teithio blynyddol, lleoliad a hyd arosiadau, rhagfynegi cylchdroadau teithio a mwy.
  2. Maint a natur cynullïadau Sipsiwn a Theithwyr o ran pobl a cherbydau (carafanau a cherbydau perthnasol) ac eglurhadau ychwanegol.
  3. Y ffactorau sy'n dylanwadu ar y dewis o gylchdroadau teithio a pherthnasoedd teulu a gwaith yn ardal Conwy.

4. Asesiad o leoliadau sy'n cael eu ffafrio ar gyfer safleoedd newydd
  5. Mesuriadau a gofynion gwasanaethau ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr megis: maint, nifer y lleiniau, y capasiti i barcio cerbydau, mynediad at ddŵr a phŵer, gwasanaethau glanweithdra, gwasanaethau arbennig megis ystafelloedd golchi dillad ac ystafelloedd cymunedol, cyfleusterau plant megis mannau chwarae, llety anifeiliaid, gwaredu ac ailgylchu ysbwriel cartref ac ysbwriel swmpus sy'n gysylltiedig â gwaith, a mwy.
  6. Asesiad o ymatebion a sensitifrwydd cynullïadau Sipsiwn a Theithwyr i raddfeydd prisio'r safleoedd
  7. Gofynion ar gyfer cyfleusterau penodol oddi ar y safle, sef ymhlith eraill: mynediad at ysgolion a gwasanaethau plant, gofal iechyd, budd-daliadau, cyngor ynghylch problemau cyfreithiol, ariannol ac eraill.
- 2.6 Roedd angen i'r GTAA gynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda cynullïadau Sipsiwn a Theithwyr i ddeall yn llawn y gofynion ynghylch math, maint a lleoliad y safleoedd.
- 2.7 Tri pheth cyfreithiol sy'n hybu creu darpariaeth o fewn Conwy a chynghorau cysylltiedig, sef Y Ddeddf Hawliau Dynol, Y Ddeddf Tai a deddfwriaeth a gymeradwyir gan Y Gymuned Ewropeaidd. Mae hi'n ofynnol ar y Cyngor i gyflawni'r gofynion yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth yma. Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos y gellid ystyried y dystiolaeth flaenorol a seiliwyd ar y data a ddangosir yn Atodias 1 fel bod yn anghywir fel sylfaen i hwyluso'r gwaith o chwilio am safle er mwyn sicrhau safle o'r math iawn a'r maint iawn yn y lleoliad iawn.
- 2.8 Felly, ystyriwyd y gellid mynd i'r afael â'r diffygion hyn trwy'r GTAA, a allai
1. Oresgyn bylchau sylweddol sydd yn y data uchod.
  2. Darparu mwy o wybodaeth ar symudiadau cynullïadau Sipsiwn a Theithwyr a'u patrymau gwersylla

3. Darparu dadansoddi pellach ar yr amllder symudiadau. Ni ellir tybio bod pob Gwersyll Anghyfreithlon yn cynrychioli cynulliad gwahanol. Mae hi'n bur bosibl i'r cofnodion Gwersylla Anghyfreithlon gynnwys yr un cynulliadau a'r rheiny wedi'u cyfrif drosodd a throsodd. Mae canfod y tueddiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn bod yn gywir wrth gyfrif poblogaeth hysbys y cynulliadau sy'n mynychu'r sir a'r siroedd cyfagos. Mae hyn yn hanfodol wrth bennu'r math o safle sydd ei angen.
4. Ymgysylltu â'r gymuned o deithwyr trwy wahodd cynulliadau o Sipsiwn a Theithwyr i weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor er mwyn datrys eu hanghenion o ran darparu safle.

2.9 Dyw'r digwyddiadau yn Atodiad 1 ond yn dangos yr achosion hynny lle cafodd yr adran gyfreithiol hysbysiad a chyfarwyddyd i ddwyn achos yn erbyn gwersylloedd anghyfreithlon. Nid oedd hyd yr arhosiad ychwaith wedi cael ei gofnodi bob tro, felly nid yw'r data'n gofnod go iawn o angen gwirioneddol o ran y math o safle sydd ei angen (e.e. Dros Dro, Teithiol, neu Barhaol). Gan fod camau gofnodi wedi'u cymryd, nid ellir defnyddio'r data hwn i ddangos am ba mor hir y byddai'r Sipsiwn a'r Teithwyr yn dymuno aros ar y safle pe caent ddewis gwneud hynny. Nid oedd ychwaith yn gallu nodi unrhyw gysylltiadau lleol nac ymrwymadau gwaith o fewn yr ardal a allai fod yn denu Sipsiwn a Theithwyr i Gonwy. Os oes cysylltiadau o'r fath, gallai hyn awgrymu bod angen math gwahanol o safle sy'n caniatáu i'r preswylwyr aros am gyfnodau hirach. Hefyd, cafwyd gostyngiad yn nifer y gwersylloedd anghyfreithlon yng Nghonwy dros y ddwy flynedd diwethaf; felly roedd angen defnyddio dull asesu manylach er mwyn cael dealltwriaeth lawn o anghenion Sipsiwn a Theithwyr yng Nghonwy drwy'r GTAA. Heb gynnal dadansoddiad hanfodol pellach drwy'r GTAA, mae'r bylchau sylweddol yn y data yn debygol o ogwyddo'r maint a'r math o safle sydd ei angen mewn gwirionedd.

### 3. Adran 3

#### **Cyfiawnhad dros gael gwared â'r ardal chwilio am safleoedd a gynigiwyd yn y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd (2009) a chamau gweithredu bwriedig**

- 3.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi ei gynnwys yn bennaf yng Nghylchlythyr 30/2007 Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafannau Sipsiwn a Theithwyr'. Er bod y canllawiau yn cydnabod y gellir ystyried ystod o ffynonellau gwybodaeth wrth asesu'r angen a'r lefel o ddarpariaeth sydd ei hangen, mae'n pwysleisio bod yn rhaid i'r wybodaeth fod yn gadarn. Mae'r canllawiau yn cydnabod bod Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) yn darparu ffynhonnell allweddol o wybodaeth sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i asesu lefel y ddarpariaeth llety Sipsiwn a Theithwyr sydd ei angen wrth baratoi eu CDLI. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar wahân ar baratoi LHMA (Mawrth 2006) yn argymhell yn gryf i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos, gan fod patrymau teithio yn debygol o groesi ffiniau awdurdodau lleol.
- 3.2 Er gwaethaf y bylchau yn y data blaenorol sy'n effeithio ar natur, maint a lleoliad y safle sydd ei angen mewn gwirionedd, gallai Conwy fod wedi darparu safle i deithwyr oddi mewn i'w therfynau ei hun drwy ddefnyddio'r data sydd ar gael, fel y mae'n cael ei gyflwyno. Awgrymwyd y gallai hyn fod wedi bod yn ymateb amhriodol i'r anghenion a nodwyd. Gellid dadlau bod yr anghenion yn wahanol rhwng ardal y naill awdurdod a'r llall, a bod patrymau clir yn bodoli y gellir eu hadnabod yn y data ar wersylloedd. O ystyried patrwm y gwersylloedd, byddai darpariaeth yng Nghonwy'n unig wedi bod yn amhriodol heb gynnal dadansoddiad i ddechrau o'r ymagweddau rhanbarthol a'r cydymagweddau tuag at fodloni'r angen. Mewn polisi, awgrymir yn glir ymagwedd ar y cyd tuag at ddarparu safleoedd teithiol, a allai ymestyn y tu hwnt i derfyn ardal CDLI Conwy, yn enwedig, er mwyn mwyafu'r defnydd o'r safle.
- 3.3 Dangoswyd hefyd na all y data ar wersylloedd anghyfreithlon ddangos a yw'r un teulu o Deithwyr yn symud o'r naill safle i'r llall o ganlyniad i gamau gorfodi – gallai hyn hefyd fod yn wir rhwng y naill awdurdod a'r llall. Gan hyn, mae cyfarwyddyd cenedlaethol yn hyrwyddo ymagwedd ranbarthol tuag at ddyrannu safleoedd fel bo

modd i awdurdodau lleol ddarparu safle ar y cyd oddi mewn i un o'r ardaloedd awdurdod lleol.

- 3.4 Dangoswyd yn glir, heb gwblhau'r GTAA, na allai'r Cyngor asesu'r posibilrwydd o ysgwyddo anghenion awdurdodau cyfagos, na dyrannu safle ar y cyd. Felly roedd hi'n hanfodol bod y GTAA yn cael ei gwblhau er mwyn sicrhau ymagwedd gyfannol tuag at chwilio a dewis safleoedd yn seiliedig ar ddata cadarn ddiweddar. Am y rhesymau hyn, cafodd yr Ardal Chwilio am Safleoedd ei thynnu o'r CDLI diwygiedig i'w archwilio gan y cyhoedd.
- 3.5 Ni chynigir unrhyw ddyraniad ar gyfer safle Sipsiwn a Theithwyr fel rhan o'r ddogfen gyflwyno 'Newidiadau â Ffocws' ac yn hytrach, cynigir polisi'm seiliedig ar feini prawf (HOU/ 9) fel yn y CDLI Diwygiedig. Fodd bynnag, yng ngoleuni canlyniadau drafft y GTAA, sydd bellach wedi cael eu rhyddhau, ac sy'n dangos bod angen posibl am safle dros dro ar y ffin rhwng Conwy a Sir Ddinbych, mae polisi HOU/ 9 wedi'i ddiwygio drwy 'newid â ffocws' i hefyd gyfeirio at ymrwymiad y Cyngor i geisio i ddarparu safle yn yr ardal hon. O ystyried y canfyddiadau drafft a'r canllawiau polisi ar annog ymagwedd gydweithredol, bydd y Cyngor yn ceisio gweithio ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych ar ddod o hyd i safle a'i ddarparu ac i ddiwallu'r angen a nodwyd yn y GTAA drafft.
- 3.6 Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu gwneud 'newid â ffocws' i'r darn monitro a gweithredu o'r cynllun i ymateb i'r angen a nodwyd yn y GTAA o fewn amserlen benodol.
- 3.7 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i ddarparu'r safle cywir, sydd o'r maint cywir ac yn y lleoliad cywir. Dangoswyd uchod ei bod hi'n rhy gynnar i gynnig Ardal Chwilio am Safleoedd yn y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd (2009), a hynny'n bennaf oherwydd diffyg tystiolaeth ddigonol, goblygiadau cyfarwyddyd cenedlaethol i fabwysiadu ymagwedd ranbarthol a diffyg ymgysylltu hanfodol â'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr.

#### 4. Atodiad 1 Data Gwersylloedd Anghyfreithlon 2007-2010

Lleoliad	Amcangyfrif o'r dyddiad cyrraedd	Amcangyfrif o'r dyddiad y symudodd y teithwyr yn eu blaen	Nifer y carafanau	Nifer y cerbydau eraill	Oedolion	Plant
Maes Parcio Traeth Pensarn	27/11/2010	02/12/2010	6	7	Cyfanswm o 24 o unigolion	
Maes Parcio Traeth Pensarn	19/10/2008	Ddim yn gwybod	17	Ddim yn gwybod	40	20+
Maes Parcio Traeth Pensarn	01/08/2008	08/08/2008	1	Ddim yn gwybod	2	6
Maes Parcio Traeth Pensarn	29/05/2008	Ddim yn gwybod	2	2	5	5
Maes Parcio Traeth Pensarn	10/11/2007	Ddim yn gwybod	20	16	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod
Parc Pentre Mawr, Abergele	28/08/2007	Ddim yn gwybod	3	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod
Parc Pentre Mawr, Abergele	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	2	2	5	5
Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel	28/04/2011	16/05/2011	7	7	14	10
Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel	17/09/2010	Ddim yn gwybod	15	16	18	14
Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel	01/06/2010	10/06/2010	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod
Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel	23/03/2010	11/04/2010	2	2	3	6
Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel	30/06/2009	Ddim yn gwybod	7	8 fan 4 car	12	5
Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel	29/06/2009	Ddim yn gwybod	3	3	8	5
Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel	29/06/2009	29/06/2009	2	2	4	7
Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd,	14/06/2009	21/06/2009	3	2	5	7

<b>Bae Cinnel</b>						
<b>Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel</b>	25/04/2009	27/06/2009	1	1	3	2
<b>Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel</b>	22/08/2008	15/09/2008	10	12	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod
<b>Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel</b>	03/08/2008	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod
<b>Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel</b>	03/07/2008	07/07/2008	2	1 jip	4	3
<b>Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel</b>	30/05/2008	02/06/2008	5	5	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod
<b>Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel Kinmel Bay</b>	18/05/2007	01/08/2007	1	1	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod
<b>Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel</b>	02/11/2007	07/12/2007	4 (+2 o 12/11/2007)	6	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod
<b>Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel</b>	30/07/2007	14/08/2007	2	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod
<b>Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel</b>	02/05/2007	14/05/2007	3	2	5	2
<b>Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinnel</b>	03/01/2007	Ddim yn gwybod	3	3	6	4
<b>Asda / Catalogue Shop, Bae Cinnel</b>	01/08/2007	Ddim yn gwybod	2	2	4	0
<b>Promenâd Bae Cinnel</b>	07/07/2009	10/07/2009	2	2	4	9
<b>Eglwys Dewi Sant, Pensarn</b>	04/07/2007	Ddim yn gwybod	2	0	4	0
<b>Ciwb Pêl Droed Builder Street, Llandudno</b>	15/01/2008	Ddim yn gwybod	3	Ddim yn gwybod	10	10
<b>Maes Parcio'r Traeth, Bae</b>	13/06/2007	01/08/2007	1	0	4	0

<b>Cinmel</b>						
<b>Tir Hamdden</b> <b>Tir Llwyd</b>	21/08/2010	30/08/2010	10	10	20	14



## 5. **Atodiad 2 Crynodeb o Bapur Cefndir 23 y CDLI Cyntaf i'w Archwilio gan y Cyhoedd**

- 5.1 TEP – Partneriaeth Amgylcheddol, comisiynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i ddynodi ac asesu nifer o safleoedd posibl i gael eu dyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol i'w archwilio gan y Cyhoedd (CDLI) i'w ddarparu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ebrill 2009.
- 5.2 Mae bellach yn ofyniad statudol dan Adran 225 Deddf Tai 2004 i bob awdurdod cynllunio lleol asesu anghenion llety unrhyw Sipsiwn a Theithwyr a delio ag unrhyw anghenion a ddarganfyddir drwy'r system gynllunio. Mae angen felly i bob awdurdod cynllunio lleol, gynnwys polisiau addas yn y CDLI i'w defnyddio wrth ystyried safleoedd bwriedig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a dyrannu safleoedd lle rydym yn canfod angen pendant a ddiffiniwyd.
- 5.3 Mae CBSC mewn cydweithrediad â Chynghorau Sir Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych a Sir Y Fflint ar hyn o bryd yn asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr drwy Aseiad Marchnad Dai Lleol Gogledd Orllewin Cymru (LHMA). Fodd bynnag, ni fydd canlyniadau'r LHMA ar gael mewn pryd i ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth ar gyfer CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd Diwygiedig CBSC. Felly, cytunodd CBSC gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) i ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael i ddelio ag anghenion llety.
- 5.4 Monitryd gwerysilloedd anghyfreithlon yn ymarferol gan CBSC dros y cyfnod 2005 – 2008. Ar ôl cwblhau'r LHMA, bydd adolygiad yn cael ei gynnal ar yr agwedd a fabwysiadwyd yn y CDLI at anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.
- 5.5 I bwrpas cynllunio, y diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr yw:

*“Unigolion sy'n byw bywyd o natur nomadig beth bynnag yw eu hil neu eu tarddiad, gan gynnwys unigolion sydd wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu'n barhaol ar sail anghenion addysgol neu iechyd eu teuluoedd eu hunain neu bobl sy'n ddibynnol arnynt neu bobl hŷn, ond nid yw'n cynnwys aelodau o grŵp wedi'i drefnu o berfformwyr teithiol neu berfformwyr syrcas sy'n teithio gyda'i gilydd yn unol â hynny”.*

5.6 Y wybodaeth allweddol sydd wedi'i chynnwys yng Nghylchlythyr WAG 30/2007 yw y gellir defnyddio ffynonellau data eraill gan gynnwys ceisiadau cynllunio, rhestrau aros, statws gwerylloedd cyfreithlon presennol, monitro gwerylloedd anghyfreithlon a chyfrifiad carafanau WAG bob hanner blwyddyn, nes bod data'r LHMA ar gael.

### 5.7 **Gweithdy Cyfranogion**

Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori yn cynnwys gweithdai ar 12 Rhagfyr 2008 yn Venue Cymru, Llandudno i gael barn nifer o gyfranogion perthnasol ynglŷn â'r meini prawf y dylid eu defnyddio i ddewis ac asesu safleoedd o ran pan mor addas ydynt i'w dyrannu fel safleoedd Sipsiwn a Theithwyr symudol. Gwahoddwyd cyfranogion i ddod i'r gweithdy gan gynnwys cynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr o'r sector preifat a chyhoeddus, Heddlu Gogledd Cymru, swyddogion perthnasol o CBSC ac awdurdodau lleol a chynghorwyr lleol.

### 5.8 **Maint Safleoedd**

Mae canllawiau wedi'u cynnwys yn nogfen ddrafft WAG 'Canllawiau Cynllunio Safleoedd' (Mai 2008) ynglŷn â chynllun safleoedd a chyfleusterau bwriedig i'w darparu. Safle gyda thopograffeg eithaf gwastad a thua 0.5Ha o faint yn cael ei ystyried yn ddigonol i ddarparu'r cyfleusterau canlynol ar bob llain:

- Dŵr, trydan, draeniad a chyfleusterau carthffosiaeth;
- Gwaredu gwastraff. Fel isafswm, dylid darparu safle gwaredu gwastraff cymunedol er y ffafrir gwaredu ar leiniau unigol;
- Arwyneb caled i ganiatáu carafán deithiol ac o leiaf un gofod ar gyfer parcio car;
- Bloc amwynder preifat ar gyfer pob llain yn cynnig toiled, basn ymolchi, a chawod gyda chyflenwad dŵr poeth ac oer (isafswm arwynebedd llawr o 7.5m<sup>2</sup>);
- Man golchi;
- Gofod chwarae i blant; a
- Darparu gofod ar gyfer anifeiliaid/gwaith.

### 5.9 **Agosrwydd at Wasanaethau Allweddol**

Mae Nodyn 13 Canllawiau Polisi Cynllunio (PPG13) - 'Cludiant' yn nodi mai *'cerdded yw'r dull pwysicaf o deithio ar lefel lleol ac mae'n cynnig y potensial*

*gorau i gymryd lle teithiau car byr, yn enwedig dan 2 gilometr. Dylai awdurdodau lleol defnyddio eu grymoedd cynllunio a chludiant i roi blaenoriaeth uwch i gerdded'. Er hynny, mae ymchwil a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Priffyrdd a Chludiant 'Canllawiau ar gyfer Darparu ar gyfer Teithiau ar Droed, 2000' yn nodi mai'r pellter cerdded cyfartalog yw 1000metr. Yn ogystal, nodwyd mewn sawl ffynhonnell (BREEAM Canllawiau Ecogartrefi (2006) a'r Sefydliad Priffyrdd a Chludiant (2000)) mai pellter cerdded derbyniol fyddai 800 - 1000 metr (tua 10 munud o gerdded).*

#### 5.10 **Cludiant Cyhoeddus**

Mae darparu cludiant cyhoeddus (gwasanaethau bws a thrên) yn ffactor bwysig yn y gallu i ddarparu datblygiad cynaliadwy. Mae safle gyda gwasanaethu cludiant cyhoeddus da yn fwy cyraeddadwy i'r defnyddwyr terfynol ac yn sicrhau fod y cyfleusterau a nodir hefyd yn fwy cyraeddadwy.

#### 5.11 **Gwasanaethau**

Dylai fod yn bosibl darparu cyfleusterau sylfaenol ar y safle i sicrhau fod safonau byw priodol yn cael eu cyflawni. Caiff darpariaeth gwasanaethau ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys trydan, dŵr, draeniad a charthffosiaeth, ei ddynodi ym mhob dogfen canllaw WAG perthnasol.

#### 5.12 **Ardaloedd Llifogydd**

Mae Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15) – 'Datblygiad a Risg Llifogydd' yn nodi na ddylid caniatáu datblygiad diamddiffyn iawn mewn parth llifogydd C2 ac y dylid ond eu hystyried mewn parth llifogydd C1 is yw awdurdod lleol yn penderfynu bod cyfiawnhad i'r lleoliad hwnnw (paragraff 6.2 TAN15). Bydd unrhyw safleoedd sy'n cael eu hystyried yn rhai a allai fod yn addas mewn egwyddor ond sydd angen FCA yn destun asesiad pellach gan y Cyngor.

#### 5.13 **Rhwystrau Gwyrdd**

Caiff rhwystrau gwyrdd eu dynodi gan yr awdurdod cynllunio lleol i ddiogelu cymeriad trefol, rhwystro aneddiadau rhag cyfuno a darparu elfen o reolaeth ynglŷn â lleoliad datblygiadau newydd. Credir ei bod yn briodol i ystyried potensial safle teithiol i Sipsiwn a Theithwyr mewn rhwystr gwyrdd cyn belled fod y safleoedd mewn lleoliadau canolog ac yn cael eu hasesu ar gyfer eu

haddasrwydd yn gyntaf ac nad yw colli'r rhan honno o'r rhwystr gwyrdd yn tanseilio'r prif bwrpas dros ei ddynodi yn y lle cyntaf.

#### 5.14 **Safleoedd a Ddynodir yn Rhyngwladol ac yn Genedlaethol**

Ystyrir asesiad o effeithiau negyddol sylweddol posibl ar safleoedd a ddynodir am eu pwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol yn faen prawf hanfodol. Mae safleoedd dynodedig yn cynnwys safleoedd Natura 2000 fel Ardaloedd Diogelu Arbennig (SPAs), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAG), safleoedd Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR).

#### 5.15 **Safleoedd a Ddynodir yn Rhanbarthol ac yn Lleol**

Rhodddwyd ystyriaeth i effeithiau posibl ar safleoedd a ddynodwyd yn rhanbarthol ac yn lleol megis safleoedd bywyd gwyllt, Gwarchodfeydd Natur Lleol, adeiladau rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Nid yw effeithiau sylweddol ar safleoedd o'r fath yn cael ei ystyried yn dderbyniol oni bai y gellir gweithredu mesurau lliniaru addas i leihau neu osgoi effeithiau o'r fath.

#### 5.16 **Risgiau i Iechyd, Diogelwch neu Amwynder**

Dylai'r safle fod mewn lleoliad addas i osgoi'r tebygrwydd o risgiau i iechyd, diogelwch neu amwynder dynol. Rhai o'r nodweddion a allai beri risg i iechyd, diogelwch neu amwynder yw chwareli, datblygiadau diwydiannol trwm a ffyrdd cyflymder uchel (perygl uniongyrchol o effeithiau traffig a sŵn), llinellau trydan uwch ben (yn sgil effeithiau ar amwynder a gosodiad safle), rheilffyrdd ac ardaloedd o ddŵr.

#### 5.17 **Effeithiau ar yr Ardal Gyfagos**

Yn unol â'r polisiau canllawiau rheoli datblygu safonol a fabwysiadwyd gan bob awdurdod lleol, byddwn yn ystyried effaith y safle ar gymeriad a lleoliad yr ardal leol gyfagos. Rhodddwyd ystyriaeth ofalus i'r effeithiau tebygol gan y safle o safbwynt ei raddfa, maint, dyluniad a defnydd o ddeunyddiau ac asesiad o'r effaith weledol debygol gan ystyried unrhyw dirlunio meddal a chaled sy'n debyg o fod ei angen.

## 5.18 **Costau a Chaffael**

Gall pa mor hawdd yw caffael safle ddylanwadu ar y gallu i ddarparu safle ac mae'n anodd iawn i'w asesu'n gywir. Yn amlwg mae safleoedd y mae'r Cyngor, WAG neu gyrff cyhoeddus eraill yn berchen arnynt yn debyg o fod yn haws i'w caffael a'u datblygu na safleoedd dan berchnogaeth breifat. Er hynny, efallai bydd achosion lle bydd thirfeddianwyr preifat yn barod iawn i werthu safle ar gyfer creu safle teithiol Sipsiwn a Theithwyr. Dan amgylchiadau o'r fath, byddai'n haerllug ac yn gosod tuedd pe baem yn asesu fod safleoedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt yn rhai haws i'w caffael heb ymgynghori'n uniongyrchol â thirfeddianwyr unigol.